## MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

# Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd *Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018* eu gosod gerbron Senedd y DU ar 27 Tachwedd 2018 ac maent bellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma: *https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/fopeBO0Y*

### Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i Amcan

3. Amcan yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n ymdrin ag asesiadau o'r effaith amgylcheddol at ddibenion penodol yn ymwneud â thrafnidiaeth sy'n deillio o'r faith bod y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n diweddaru rhai cyfeiriadau sydd wedi dyddio, gan gynnwys cyfeiriad wedi dyddio at gytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn Neddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992. Mae hefyd yn ceisio sicrhau y bydd modd gweithredu'n gyfreithlon y darpariaethau diogelu'r amgylchedd sy'n ymwneud â llygredd aer (yn benodol, faint o sylffwr sydd mewn tanwyddau a ddefnyddir ar y môr) ac â systemau gwrth-halogi pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

4. Mae'r OS yn gwneud cywiriadau technegol i'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

    - Rheoliadau Llongau Masnach (Atal Llygredd Aer ar Longau) 2008
    - Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/253
    - Rheoliad (EC) 782/2003
    - Rheoliadau Llongau Masnach (Systemau Gwrth-halogi) 2009
    - Rheoliad y Comisiwn (EC) 36/2008
        - Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992
        - Rheolau Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006.

### Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

5. Y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac sy'n cael ei diwygio gan yr OS drafft yw Deddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.

6. Y darpariaethau perthnasol yn yr OS yw rheoliadau 2 a 4, sy'n diweddaru cyfeiriad sydd wedi dyddio at yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac sy'n gwneud diwygiadau technegol fel y bo statws y DU y tu allan i'r UE yn cael ei adlewyrchu’n gywir.

7. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir uchod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â thramffyrdd, systemau trafnidiaeth cyfeiriedig, a rheoleiddio gwaith a allai rwystro neu beryglu mordwyaeth, oni bai bod y gwaith hwnnw'n gysylltiedig â phorthladdoedd neu harbyrau ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl nad ydynt yn gyfan gwbl yng Nghymru, neu ag adeiladu porthladdoedd neu harbyrau o’r fath.

**Pam mae'n briodol i'r OS mwneud y ddarpariaeth hon**

8. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy’n gysylltiedig â’r cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae gweithredu fel hyn yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**29 Tachwedd 2018**